Ystadegau ar ddamweiniau ar y ffyrdd a gofnodir gan yr heddlu

Beth yw'r ystadegau hyn?

Mae ystadegau ar ddamweiniau ar y ffyrdd a gofnodir gan yr heddlu yn darparu gwybodaeth gryno am ddamweiniau ar y ffyrdd yng Nghymru a arweiniodd at anaf personol. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i heddluoedd gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau o'r fath, gan gynnwys manylion am unrhyw unigolion a anafwyd, cerbydau, lleoliadau ac achosion.

Caiff yr ystadegau cryno dros dro ar StatsCymru a dangosfwrdd rhyngweithiol eu diweddaru bob chwarter, a chyhoeddir dadansoddiadau a sylwadau terfynol manwl mewn adroddiadau blynyddol.

Dim ond damweiniau ar y ffyrdd a arweiniodd at anaf personol ac y casglwyd gwybodaeth amdanynt gan yr heddlu a gynhwysir fel rhan o'r wybodaeth. Mae'n hysbys, i raddau, nad yw pob digwyddiad o'r fath yn cael ei gofnodi, yn enwedig ar gyfer digwyddiadau llai difrifol. Mae'r ystadegau hyn yn bwydo i ystadegau'r Adran Drafnidiaeth ar anafiadau ar y ffyrdd ym Mhrydain Fawr.

Cyd-destun polisi a gweithredol

Mae diogelwch ar y ffyrdd yn faes sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru ac mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer traffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru. Mae'r ystadegau hyn yn hanfodol er mwyn helpu i ddadansoddi diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru a datblygu polisïau cysylltiedig. Nodir y cyd-destun ar gyfer ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd gan Lywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013. Roedd hyn yn cynnwys creu targedau i leihau nifer y bobl a gaiff eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd yng Nghymru erbyn 2020.

Defnyddwyr a defnyddiau

Defnyddir y data gan Lywodraeth Cymru i asesu effeithiolrwydd polisïau cyfredol, datblygu polisïau ac ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd newydd ac asesu eu heffaith, a monitro tueddiadau a chynnydd tuag at ei thargedau ar gyfer lleihau nifer y bobl a gaiff eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd yng Nghymru. Fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y cefnffyrdd, rhaid i Weinidogion Cymru ddadansoddi'r data er mwyn helpu i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. Mae rhannau helaeth o'r data yn bwysig er mwyn deall gweithrediad y rhwydwaith ffyrdd ac ymddygiad gyrwyr.

Yn ogystal, mae amrywiaeth o sefydliadau eraill yn defnyddio'r data hyn i ategu asesiadau o ddiogelwch ar y ffyrdd ac i nodi mannau lle ceir damweiniau mynych ac ymdrin â nhw. Maent yn cynnwys heddluoedd, grwpiau diogelwch ar y ffyrdd, awdurdodau lleol, cynllunwyr trafnidiaeth ac awdurdodau priffyrdd. Mae'r ystadegau hefyd yn derbyn sylw rheolaidd yn y cyfryngau cenedlaethol a lleol wrth iddynt gyflwyno'r darlun a'r tueddiadau diweddaraf o ran diogelwch ar y ffyrdd.

Nid yw'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn yn ymwneud ag unrhyw un o'r dangosyddion cenedlaethol, ond mae'n bosibl y byddant yn berthnasol yng nghyd-destun.

rhai o'r dangosyddion ac y cânt eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau a'u cynlluniau llesiant lleol.

Ystadegydd: Ryan Pike ~ 0300 025 5050 ~ ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

Cryfderau a chyfyngiadau'r data

Cryfderau

- Y data yw'r ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr a dibynadwy o wybodaeth ar ddamweiniau ac anafiadau ar y ffyrdd yng Nghymru.
- Caiff y wybodaeth ei phrosesu a'i chyhoeddi bob chwarter er mwyn i ddefnyddwyr allu nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg o ran diogelwch ar y ffyrdd a chymryd camau gweithredu mewn perthynas â nhw.
- Datblygwyd yr allbynnau ystadegol i ddiwallu anghenion defnyddwyr ac maent yn ymwneud ag amrywiaeth eang o bynciau sy'n berthnasol i ddefnyddwyr.
- Mae'r dangosfwrdd damweiniau ar y ffyrdd yn galluogi defnyddwyr i drin y data sylfaenol gan ddefnyddio amrywiaeth o newidynnau daearyddol a demograffig er mwyn creu dadansoddiadau wedi'u teilwra'n arbennig i ategu'r dadansoddiadau yn y bwletinau ystadegol.
- Daw'r ystadegau o systemau gweinyddol a gaiff eu gweithredu eisoes gan heddluoedd.

Cyfyngiadau

- Mae problemau hirsefydledig yn bodoli o ran y ffaith nad yw'r data yn cwmpasu pob damwain, yn enwedig damweiniau llai difrifol, a hynny'n effeithio ar yr ystadegau yng Nghymru a ledled Prydain Fawr. Er enghraifft, noda data ysbytai, data o arolygon a data am hawliadau iawndal na chaiff yr heddlu wybod am lawer o ddamweiniau nad ydynt yn angheuol neu nad yw'r heddlu yn cofnodi damweiniau o'r fath.
- Gall fod yn anodd dehongli tueddiadau byrdymor o ganlyniad i newidiadau o ran arferion cofnodi'r heddlu a ph'un a fydd defnyddwyr ffyrdd yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau.
- Ystyrir mai diweddariadau dros dro yw'r diweddariadau chwarterol gan eu bod yn aml yn cynnwys tanamcangyfrifon o gymharu â'r data terfynol ar gyfer y flwyddyn.
- Gan fod data ar ddifrifoldeb anafiadau a'r ffactorau a gyfrannodd at ddigwyddiadau yn seiliedig ar asesiadau goddrychol swyddogion yr heddlu, yn aml nid ydynt yn darparu darlun cynhwysfawr.
- Weithiau, mae oedi wrth ddarparu data wedi golygu y bu'n rhaid gohirio datganiadau ystadegol.

Cylch prosesu data

Casglu data

Mae'r Gofyniad Data Blynyddol yn gosod dyletswydd statudol ar heddluoedd ym Mhrydain Fawr i gasglu gwybodaeth am ddamweiniau traffig ar y ffyrdd sy'n arwain at anaf personol. Mae swyddogion yr heddlu yn cofnodi'r data hyn ar ffurflen 'STATS19', a chânt eu coladu ar lefel heddluoedd i systemau gweinyddol a'u trosglwyddo i Lywodraeth Cymru bob mis neu bob chwarter. Caiff y rhan fwyaf o'r wybodaeth ei chofnodi yn lleoliad y digwyddiad gan y swyddogion a

fydd yn mynychu, ond mae'n bosibl y caiff y ffurflenni eu cwblhau neu eu diweddaru wedi hynny pan fydd mwy o wybodaeth ar gael. Mae pedwar heddlu yng Nghymru; Heddlu De Cymru; Heddlu Gwent; Heddlu Dyfed-Powys; Heddlu Gogledd Cymru.

Dilysu a gwirio

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o ddilysiadau awtomatig ar y data crai a ddarperir gan heddluoedd. Nod y gwiriadau hyn yw nodi cofnodion sy'n cynnwys data anarferol, data annilys neu ddata coll a gofynnir i heddluoedd ac awdurdodau lleol ddilysu'r cofnodion hyn. Ymhlith yr enghreifftiau o'r mathau o wiriadau mae:

- Oedran y gyrrwr o fewn yr ystod ddisgwyliedig
- Lleoliadau annilys ar gyfer damwain
- Gwiriadau am gofnodion dyblyg
- Cysondeb cofnodion ar lefel fewnol

Pan gaiff y dilysiadau hyn eu cwblhau, bydd Llywodraeth Cymru yn llunio set ddata sydd fwy neu lai'n derfynol ac yn cynnal gwaith cymharu yn erbyn data cyfanredol blynyddoedd blaenorol. Gwneir hyn bob blwyddyn a bob chwarter ar gyfer Cymru gyfan, ar gyfer ardaloedd yr heddlu ac ar lefel awdurdodau lleol. Mae hyn yn helpu i nodi tueddiadau anarferol yn yr ystadegau a all nodi bod data ar goll, a gellir gofyn i'r heddlu ymchwilio unwaith eto i'r data.

Rydym yn cynnwys awdurdodau lleol wrth sicrhau ansawdd rhai agweddau penodol ar y data, gan ganolbwyntio ar fanylion lleoliadau. Rydym hefyd yn cymharu'r data â ffynonellau gwybodaeth eraill, er enghraifft, gwybodaeth o gyfarfodydd â heddluoedd, gwybodaeth y rhoddwyd gwybod i grŵp Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru a gydgysylltir gan ROSPA amdani, ac adroddiadau am ddamweiniau angheuol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.

Caiff y data eu darparu i Adran Drafnidiaeth y DU er mwyn bwydo i'w datganiadau ystadegol. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn cynnal cyfres o ddilysiadau awtomatig a all nodi materion ansawdd ychwanegol megis cofnodion dyblyg, ond fel arfer, ni cheir llawer o achosion o'r fath.

Caiff y data terfynol eu rhannu â'r heddluoedd fel rhan o'r cam sicrhau ansawdd terfynol ac er mwyn eu cymeradwyo cyn eu cyhoeddi.

Cyhoeddi

Ar ôl llunio'r data terfynol, caiff y bwletin ystadegol, y pennawd ystadegol, y dangosfwrdd a thablau StatsCymru eu creu. Caiff holl elfennau'r datganiad eu gwirio'n annibynnol a chynhelir gwiriad synnwyr terfynol gan yr ystadegydd cyfrifol cyn cyhoeddi'r datganiad ar y wefan.

Mae'r data terfynol hefyd yn bwydo i ddatganiad ystadegol yr Adran Drafnidiaeth ar anafiadau ar y ffyrdd y rhoddwyd gwybod amdanynt ym Mhrydain Fawr.

Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 a chan gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod yr ystadegau yn bodloni'r safonau uchaf o ran eu dibynadwyedd, eu hansawdd a'u gwerth i'r cyhoedd ac mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau hyn.

Dylai unrhyw ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen rheoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried p'un a yw'r ystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus. Cadarnhawyd dynodiad yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol ym mis Gorffennaf 2013 yn dilyn asesiad llawn yn erbyn y Cod Ymarfer.

Ers yr adolygiad diwethaf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- Cynnal darn sylweddol o waith er mwyn gwella ein dealltwriaeth o ansawdd data, gan ddefnyddio'r pecyn cymorth ar gyfer Sicrhau Ansawdd Data Gweinyddol
- Ychwanegu at wybodaeth am ddimensiynau ansawdd a mireinio'r wybodaeth honno, a disgrifio'r cysylltiadau â pholisïau a thargedau Llywodraeth Cymru
- Gwella adnoddau gweledol drwy symleiddio a safoni siartiau a thablau

Mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hyn â'r Awdurdod yn ddi-oed. Gellir diddymu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg os na lwyddir i gynnal y safonau uchaf, a gellir adfer y statws hwnnw pan gaiff y safonau eu cyrraedd unwaith eto.

Sicrhau ansawdd data gweinyddol

Sgoriwyd y datganiad hwn yn erbyn matrics Sicrhau Ansawdd Data Gweinyddol Awdurdod Ystadegau'r DU. Y matrics yw safon rheoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer sicrhau ansawdd data gweinyddol. Mae'r safon yn cydnabod y rôl gynyddol a chwaraeir gan ddata gweinyddol wrth lunio ystadegau swyddogol ac yn egluro beth y dylai llunwyr ystadegau swyddogol ei wneud er mwyn sicrhau ansawdd y data hyn. Mae'r pecyn cymorth sy'n ei hategu yn cynnig canllawiau defnyddiol i lunwyr ystadegau o ran yr arferion y gallant eu mabwysiadu er mwyn sicrhau ansawdd y data a gânt, ac mae'n nodi'r safonau ar gyfer asesu ystadegau yn erbyn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae'r meini prawf y caiff ystadegau eu sgorio yn eu herbyn fel a ganlyn:

- Cyd-destun gweithredol a dulliau casglu data gweinyddol
- Cyfathrebu â phartneriaid cyflenwi data
- Yr egwyddorion, y safonau a'r gwiriadau sicrhau ansawdd a gymhwysir gan gyflenwyr data
- Ymchwiliadau a dogfennaeth sicrhau ansawdd lluniwr y data

Mae'r matrics yn ein galluogi i wneud asesiad o broffil risg ein hystadegau yn seiliedig ar fudd y cyhoedd a phryderon o ran ansawdd. Rydym wedi asesu'r ystadegau hyn fel 'A2/A3' gan ein bod o'r farn bod pryder canolig/uchel yn gysylltiedig â'r ystadegau o ran eu hansawdd a'u bod o fudd canolig i'r cyhoedd. Mae hyn yn awgrymu y dylai ein harferion sicrwydd fod naill ai'n 'Estynedig' (A2 - 'Enhanced') neu'n 'Gynhwysfawr' (A3 - 'Comprehensive') gan ddibynnu ar berthnasedd yr arferion penodol i'n gwaith.

Nododd ein hasesiad cychwynnol fod ein prosesau presennol yn bodloni gofynion lefelau sicrwydd A2 ac A3 neu'n rhagori arnynt yn y rhan fwyaf o achosion, er bod meysydd o'r fframwaith yr oedd angen eu gwella hefyd. Roedd ein prosesau presennol yn gadarn mewn meysydd megis cyfathrebu â chyflenwyr, ein gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol a'n dealltwriaeth o gyd-destun gweithredol y trefniadau casglu data. Gwnaethom nodi rhai meysydd o wendid cymharol, er enghraifft, darparu gwybodaeth yn seiliedig ar ffynonellau tuedd a gwall a deall prosesau sicrhau ansawdd cyflenwyr. Ers hynny, rydym wedi cymryd camau i wella ein harferion yn y meysydd hyn, gan gynnwys:

- Cyfarfod â heddluoedd unigol er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'u prosesau casglu data a sicrhau ansawdd. Helpu heddluoedd i wella eu prosesau a rhoi dulliau sicrhau ansawdd mwy cydweithredol ar waith drwy gynyddu amlder ac effeithlonrwydd dilysiadau data.
- Mynd i gyfarfodydd â Grŵp Strategol Rhanbarthol Plismona Ffyrdd Cymru a Diogelwch Ffyrdd Cymru (partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, grwpiau diogelwch ar y ffyrdd a heddluoedd). Defnyddio'r cyfarfodydd hyn i wella ein dealltwriaeth o waith a blaenoriaethau rhanddeiliaid, pwysleisio pwysigrwydd ansawdd data a helpu i sicrhau ymrwymiad a chyfranogiad gan gyflenwyr.
- Ffurfioli cytundebau o ran rolau a chyfrifoldebau casglu data, sicrhau ansawdd a chyflenwi.
- Defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth er mwyn helpu i ddilysu data, gan gynnwys adroddiadau ar farwolaethau, gwybodaeth gan awdurdodau lleol a gwybodaeth a gyflwynir i grŵp Diogelwch Ffyrdd Cymru.
- Darparu gwybodaeth fanylach am ffynonellau gwallau yn y data, gan gymharu yn erbyn ffynonellau data cysylltiedig a thrafod achosion tebygol nas nodir.

Mae ein gwaith yn y meysydd hyn ac ym meysydd eraill y fframwaith Sicrhau Ansawdd Data Gweinyddol yn mynd rhagddo ac rydym yn parhau i weithio gyda'r heddluoedd a rhanddeiliaid er mwyn nodi lle y gellir gwella ansawdd data a'r trefniadau ar gyfer dosbarthu ystadegau.

Rydym o'r farn mai'r problemau hirsefydledig o ran y ffaith nad yw'r data yn cwmpasu pob damwain yw'r pryder mwyaf sylweddol o ran ansawdd yr ystadegau hyn. Mae damweiniau na chânt eu cwmpasu yn perthyn i ddau gategori:

- Damweiniau sy'n arwain at anaf personol *na roddwyd gwybod* i'r heddlu amdanynt. Noda gwaith ymchwil gan yr Adran Drafnidiaeth[1] a ffynonellau data eraill megis hawliadau

[1] Ceir crynodeb o dan yr adran cryfderau a gwendidau yn Anafiadau ar y Ffyrdd y Rhoddwyd Gwybod Amdanynt ym Mhrydain Fawr.

yswiriant, data derbyniadau i ysbytai a data o arolygon na roddir gwybod i'r heddlu am tua 50 y cant o ddamweiniau lle ceir rhyw fath o anaf personol, sef tua dwy ran o dair o'r holl anafiadau nad ydynt yn angheuol. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai mân anafiadau yw'r rhan fwyaf o'r anafiadau hyn, ac nid yw'n hysbys faint ohonynt fyddai wedi cael eu hystyried yn anafiadau y dylid eu cofnodi pe byddai'r heddlu wedi mynychu.

- Damweiniau y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt ond *nas cofnodwyd* gan yr heddlu. Rydym wedi nodi rhai enghreifftiau o hyn drwy ein prosesau sicrhau ansawdd, sy'n tynnu sylw at newidiadau sylweddol yn y data a gaiff wedyn eu trafod gyda'r heddlu. Yn y senarios hyn, mae'r heddluoedd fel arfer, ond nid bob amser, wedi gallu edrych yn ôl a chasglu a darparu'r wybodaeth sydd ar goll. Ond oherwydd eu natur, dim ond os bydd anghysondebau cymharol fawr o gymharu â data blynyddoedd blaenorol y gellir nodi'r achosion hyn. Nid yw'n hysbys i ba raddau na chaiff eu cofnodi neu'n ddigonol ar raddfa fach p'un a yw'n digwydd yn barhaus. Bu gwella ymwybyddiaeth o'r angen i gofnodi damweiniau drwy system STATS19 yn un o nodweddion ein gwaith gyda'r heddluoedd. Fel gyda damweiniau na roddir gwybod amdanynt, damweiniau lle ceir 'mân' anafiadau yw'r mwyafrif helaeth o'r achosion nas cofnodir fwy na thebyg.

Yn gyffredinol, mae'r ffynonellau sydd ar gael yn dangos mai dim ond is-set o'r holl ddamweiniau ar y ffyrdd lle ceir anaf personol yw'r damweiniau y rhoddir gwybod i heddluoedd amdanynt ac a gofnodir gan heddluoedd, ond bod lefel yr anafiadau difrifol a'r marwolaethau a nodir yn dda.

Yn ogystal â than-gwmpasu damweiniau, mae'n debygol bod tan-gofnodi anafiadau difrifol. Trafodir hyn yn fanylach o dan *cywirdeb* isod.

Mae'r Adran Drafnidiaeth ar hyn o bryd yn arwain adolygiad o ystadegau STATS19 ledled Prydain Fawr sy'n ymdrin â'r pynciau hyn a bydd yn asesu'r opsiynau ar gyfer gwella cwmpas y data ac ar gyfer gwneud amcangyfrifon ar gyfer data coll. Bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan weithredol yn yr ymarfer hwn.

Rheoli datgeliadau a chyfrinachedd

Nid yw'r ystadegau a gyhoeddir ar ddamweiniau ar y ffyrdd yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol na masnachol sensitif sy'n gofyn am weithredu o ran rheoli datgeliadau neu ddiogelu cyfrinachedd ar waith. Fodd bynnag, mae'r data gwreiddiol yn cynnwys rhai meysydd sensitif personol, er enghraifft, codau post, rhifau cofrestru a chanlyniadau profion anadl. Caiff yr holl ddata o'r fath eu dal a'u trosglwyddo'n ddiogel ac nid ydynt ar gael fel rhan o'r allbynnau a gyhoeddir. Caiff data sensitif eu rhyddhau i ddefnyddwyr allanol o dan rai amgylchiadau, er enghraifft er mwyn helpu awdurdodau lleol wrth roi mentrau diogelwch ar y ffyrdd ar waith. Yn yr achosion hyn, mae'r defnyddwyr, drwy lofnodi cytundebau mynediad at ddata, yn cadarnhau y byddant yn bodloni'r gofynion angenrheidiol o ran diogelwch data ac y byddant yn dinistrio'r data ar adeg benodedig yn y dyfodol.

Asesu Ansawdd Ystadegol

Mae ystadegau ar ddamweiniau ar y ffyrdd a gofnodir gan yr heddlu yn cydymffurfio â Strategaeth Rheoli Ansawdd Ystadegol Llywodraeth Cymru, sy'n unol â dimensiynau ansawdd y System

Ystadegol Ewropeaidd. Nodir manylion y dimensiynau, a'r ffordd rydym yn cydymffurfio â nhw, isod:

Perthnasedd

I ba raddau y mae'r cynnyrch ystadegol yn diwallu anghenion defnyddwyr o ran cwmpas a chynnwys.

Mae amrywiaeth o sefydliadau yn defnyddio data am ddamweiniau traffig ac anafiadau ar y ffyrdd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio data am wrthdrawiadau traffig ac anafiadau ar y ffyrdd er mwyn helpu i lunio polisi diogelwch ar y ffyrdd. Fe'u defnyddir hefyd ar gyfer dangosyddion perfformiad, ar gyfer Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac ar gyfer rhai dangosyddion Perfformiad Iechyd.

Mae defnyddwyr eraill yn cynnwys Awdurdodau Priffyrdd, gan gynnwys Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd, ac awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am ffyrdd eraill yng Nghymru. Mae cyrff eraill sy'n ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd yn cynnwys Gan Bwyll, Asiantau'r Cefnffyrdd, Yr Heddlu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, Diogelwch Ffyrdd Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau a GanBwyll. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu data i sefydliadau cynllunio trafnidiaeth er mwyn cefnogi asesiadau diogelwch ar y ffyrdd.

Mae rhywfaint o alw am wybodaeth am ddamweiniau ar y ffyrdd lle na chaiff unrhyw un ei anafu, ond nid yw'r rhain yn cael eu cwmpasu gan broses STATS.

Cywirdeb

Yr agosrwydd rhwng canlyniad amcangyfrifedig a'r gwerth gwirioneddol (anhysbys).

Mae'r data a gyflwynir yn adlewyrchu'r damweiniau ar y ffyrdd lle ceir anafiadau personol a gofnodir gan heddluoedd yng Nghymru. Fel y trafodir o dan sicrhau ansawdd data gweinyddol, er mai'r data hyn yw'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf manwl a dibynadwy am ddamweiniau ac anafiadau ar y ffyrdd, nid ydynt yn darparu cofnod cyflawn o'r holl ddigwyddiadau o'r fath - er enghraifft, noda data ysbytai, data o arolygon a data o hawliadau iawndal na roddir gwybod am lawer o ddamweiniau nad ydynt yn angheuol i'r heddlu neu na chânt eu cofnodi gan yr heddlu. O ganlyniad, mae'r ffigurau a gyflwynir yn debygol o fod yn is na'r gwerthoedd gwirioneddol. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer damweiniau lle ceir mân anafiadau yn unig, er nad yw'n bosibl meintioli'n ddibynadwy i ba raddau na chaiff damweiniau o'r fath eu cwmpasu.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod swyddogion yr heddlu sy'n mynychu damweiniau yn tanamcangyfrif difrifoldeb rhai anafiadau. Mae hyn ers i rai heddluoedd yn Lloegr gyflwyno systemau cofnodi yn seiliedig ar anafiadau, sy'n pennu lefel difrifoldeb yn awtomatig ac sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr anafiadau difrifol a gofnodir. Noda'r dystiolaeth fod systemau nad ydynt yn seiliedig ar anafiadau, gan gynnwys y rheini a ddefnyddir gan bob un o'r heddluoedd yng Nghymru ac sy'n dibynnu ar asesiadau swyddogion yr heddlu o ddifrifoldeb, yn arwain at danamcangyfrif anafiadau difrifol o tua 20% i 25%. Nid ystyrir bod y ffynhonnell duedd hon yn effeithio ar dueddiadau dros amser yn yr ystadegau gan fod effaith ar yr ôl-gyfres lawn. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi llunio fersiwn wedi'i haddasu o'r ystadegau difrifoldeb anafiadau ar

gyfer Prydain Fawr ac rydym yn bwriadu ystyried p'un a ellir defnyddio'r fersiwn hon er mwyn helpu i feintioli graddau tangofnodi anafiadau difrifol yng Nghymru.

Yn ogystal, gall newidiadau mewn arferion cofnodi'r heddlu olygu nad oes modd cymharu'r ystadegau'n uniongyrchol dros amser.

Mae'r ffigurau yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael i Lywodraeth Cymru 14 wythnos ar ôl diwedd y chwarter diweddaraf. Caiff y ffigurau a gyhoeddir eu diwygio os bydd data ychwanegol ar gael yn dilyn hynny.

Mae'n debygol y bydd rhai gwallau o ran manylion damweiniau a gwybodaeth ddaearyddol a demograffig, er eu bod yn llai tebygol o ystyried y dilysiadau a gynhelir gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r heddluoedd.

Amseroldeb a phrydlondeb

Mae amseroldeb yn cyfeirio at yr amser sy'n mynd heibio rhwng y cyfnod cyfeirio a chyhoeddi'r ystadegau. Mae prydlondeb yn cyfeirio at y gwahaniaeth amser rhwng y dyddiad cyhoeddi gwirioneddol a'r dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

Fel arfer, caiff amcangyfrifon blwyddyn galendr lawn eu cyhoeddi 5 i 6 mis i mewn i'r flwyddyn ganlynol. Mae'r datganiad hwn yn cynnwys y bwletin ystadegol, pennawd ystadegol, dangosfwrdd rhyngweithiol a thablau StatsCymru. Yn ogystal, gwneir diweddariadau dros dro ar gyfer chwarter 1, 2 a 3 i'r dangosfwrdd a StatsCymru yn ystod y flwyddyn, a hynny tua 6 mis ar ôl diwedd y cyfnod cyfeirio.

Weithiau, mae oedi wrth ddarparu data a sicrhau ansawdd wedi golygu y bu'n rhaid gohirio'r prif ddatganiad ystadegol. Er enghraifft, gohiriwyd datganiad 2017, y disgwyliwyd iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2018, tan ddechrau mis Awst 2018.

Fel arfer, caiff y canlyniadau ar gyfer Prydain Fawr eu cyhoeddi gan yr Adran Drafnidiaeth tua 7 mis ar ôl diwedd y cyfnod cyfeirio.

Hygyrchedd ac eglurder

Hygyrchedd yw pa mor hawdd y gall defnyddwyr gael gafael ar y data, gan adlewyrchu hefyd ar ba fformat(au) y mae'r data ar gael a'r wybodaeth ategol sydd ar gael. Cyfeiria eglurder at ansawdd a digonolrwydd y metadata, y darluniadau a'r cyngor ategol.

Caiff y Bwletin Ystadegol hwn ei rag-gyhoeddi a'i osod ar wefan Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru. Mae'r holl ddata hanesyddol ar gael ar StatsCymru a gall defnyddwyr lawrlwytho ac allforio rhannau penodol o'r data mewn fformatau data agored.

Ein nod yw rhoi gwybod i ddefnyddwyr hysbys am ddatblygiadau o ran yr allbynnau ystadegol. Er enghraifft, gwnaethom ddatblygu dangosfwrdd rhyngweithiol sy'n hawdd ei ddefnyddio lle y gall defnyddwyr edrych ar amrywiaeth o nodweddion lleoliadol a demograffig sy'n gysylltiedig â'r data. Rydym yn diweddaru ac yn hyrwyddo'r dangosfwrdd bob chwarter. Yn ein hallbynnau, ein nod yw darparu cydbwysedd o sylwadau, tablau cryno, siartiau a mapiau lle y bo'n berthnasol. Y bwriad yw 'adrodd yr hanes' mewn iaith syml, gan ganolbwyntio ar bynciau penodol y gwyddom eu bod o ddiddordeb i ddefnyddwyr, er enghraifft perfformiad yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru.

Caiff ein penawdau ystadegol a'n trydariadau eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae ein holl allbynnau yn cydymffurfio â pholisi hygyrchedd Llywodraeth Cymru ac yn cael eu hadolygu'n fewnol gan gymheiriaid.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr ystadegau drwy gysylltu â'r ystadegydd cyfrifol a enwir ar y datganiad neu drwy ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru.

Cymharu a chydlynu

I ba raddau y gellir cymharu'r data dros amser ac yn ôl meysydd ac i ba raddau y mae'r data sy'n deillio o wahanol ffynonellau neu ddulliau, ond sy'n cyfeirio at yr un ffenomenon, yn debyg.

Gall newidiadau o ran arferion cofnodi'r heddlu a'n gweithdrefnau sicrhau ansawdd olygu nad oes modd cymharu'r ystadegau yn uniongyrchol dros amser. Gall hyn ddeillio o newidiadau i systemau, protocolau, meddalwedd neu bersonél. Pan fyddwn yn ymwybodol o achosion o'r fath, rydym yn ceisio pennu a disgrifio'r effaith debygol ar yr ystadegau. Gall fod enghreifftiau eraill o newidiadau mwy graddol o ran arferion cofnodi neu ymddygiad na fyddwn yn dod yn ymwybodol ohonynt. Nid yw'n bosibl meintioli nac addasu ar gyfer effaith ffactorau o'r fath ond pan fyddant yn digwydd, nid ydym o'r farn eu bod yn debygol o fod yn arwyddocaol, er enghraifft, gan fod cymariaethau yn erbyn ffynonellau eraill (data o ysbytai ac arolygon) yn gymharol sefydlog.

Yn gysyniadol, gellir cymharu ystadegau ar ddamweiniau ar y ffyrdd ledled Prydain Fawr. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau hysbys yn y systemau cofnodi a ddefnyddir gan heddluoedd sy'n debygol o arwain at amrywiadau yn y gallu i gymharu gwybodaeth benodol. Er enghraifft, mae rhai heddluoedd yn Lloegr wedi symud tuag at systemau cofnodi sy'n seiliedig ar anafiadau sy'n pennu difrifoldeb yn awtomatig, a gwyddom fod y systemau hyn yn arwain at niferoedd uwch o anafiadau difrifol o gymharu â systemau cofnodi nad ydynt yn seiliedig ar anafiadau, sy'n seiliedig ar farn swyddogion yr heddlu. Fel gyda'r gwahaniaethau rhwng heddluoedd yng Nghymru a grybwyllir uchod, gall fod gwahaniaethau gweithdrefnol eraill hefyd rhwng heddluoedd ledled Prydain Fawr a fyddai'n golygu gwahaniaethau o ran cwmpas ac ansawdd data.

Fel y trafodwyd, noda tystiolaeth o ffynonellau eraill mai dim ond is-set o'r holl ddamweiniau lle ceir anafiadau personol yw'r data ar ddamweiniau ar y ffyrdd a gofnodir gan yr heddlu, ac o bosibl bod niferoedd mawr o ddigwyddiadau llai difrifol na roddir gwybod i'r heddlu amdanynt neu na chânt eu cofnodi gan yr heddlu. Mae hyn, a'r ffaith nad yw proses STATS19 yn cynnwys rhai damweiniau penodol (er enghraifft, gweithredoedd bwriadol a damweiniau nad ydynt yn digwydd ar briffyrdd cyhoeddus), yn golygu nad yw ystadegau STATS19 yn gyson ag amcangyfrifon o ddamweiniau neu anafiadau ar y ffyrdd o ffynonellau megis ystadegau o episodau mewn ysbytai a data o hawliadau yswiriant.

Noda tystiolaeth fod yr anghysondebau rhwng data STATS19 a ffynonellau eraill o ddata sy'n ymdrin â damweiniau ar y ffyrdd yn effeithio'n bennaf ar ddigwyddiadau llai difrifol. Er enghraifft, ceir cysondeb cyffredinol, o ran lefelau ac o ran tueddiadau, rhwng ystadegau STATS19 ar farwolaethau ac ystadegau achos marwolaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer damweiniau trafnidiaeth ar y tir.

Bydd adolygiad STATS19 o dan arweiniad yr Adran Drafnidiaeth yn ymchwilio er mwyn canfod a oes modd meintioli'n gyffredinol raddau tan-gofnodi a pha waith pellach y gellir ei wneud er mwyn darparu asesiad gwell o'r cysondeb mewn tueddiadau rhwng yr ystadegau hyn a ffynonellau eraill.

Gwerthuso

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw rai o'n hystadegau. Os hoffech gysylltu â ni, gallwch wneud hynny drwy:

ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru

Cynhyrchwyd gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Diweddarwyd ddiwethaf: Mehefin 2019

Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.